**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

24 Mawrth 2023

Annwyl Julie,

Diogelwch adeiladau

Rydym yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r argyfwng diogelwch adeiladau parhaus. Yn ein llythyr diwethaf atoch, dyddiedig 25 Tachwedd 2022, gwnaethom gyfeirio at bryderon a godwyd gan grŵp y Welsh Cladiators ynghylch cyflymder a natur y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i unioni'r sefyllfa ar gyfer lesddeiliaid adeiladau yr effeithir arnynt. Diolch am eich ymateb dyddiedig 15 Rhagfyr 2022.

Yn ein cyfarfod ar 1 Mawrth, cawsom dystiolaeth gan grŵp y Welsh Cladiators a chan banel o dystion yn cynrychioli lesddeiliaid anabl yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng. Dangosodd eu tystiolaeth y rhwystredigaeth ddealladwy a deimlwyd gan lesddeiliaid am y diffyg cynnydd a gweithredu, a chanfuom fod y dystiolaeth gan y ddau banel yn peri pryder.

Clywsom gan grŵp y Welsh Cladiators fod ymchwiliadau a wnaed ar adeiladau yr effeithir arnynt wedi datgelu materion sy'n mynd y tu hwnt i ddiogelwch tân yn unig, a bod y sefyllfa'n gymhleth ac yn newid drwy'r amser. Mae'n amlwg i ni fod nifer o'r diffygion yn yr adeiladau yn rhagddyddio trasiedi Grenfell. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch safonau adeiladu cyffredinol a'r diffyg rheoliadau amlwg i gywiro diffygion.

Clywsom hefyd gan y grŵp am ganlyniadau cais rhyddid gwybodaeth diweddar a wnaeth mewn perthynas â chronfa adeiladau Cymru. Dywedodd y grŵp wrthym fod y cais yn dangos, o ddiwedd mis Chwefror eleni, mai dim ond £75,000 o'r gronfa £375 miliwn, oedd wedi ei ymrwymo i dalu ffioedd arolygon. Byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y gronfa hon yn cael ei gwario er mwyn datrys y materion diogelwch adeiladau parhaus.

Soniodd grŵp y Welsh Cladiators wrthym hefyd am eu pryderon ynghylch yr arolygon sy'n cael eu cynnal, yn benodol, y ffaith nad oes modd rhyddhau'r adroddiadau nes bod yr holl arolygon wedi'u cwblhau. Clywsom fod aelodau'r grŵp wedi talu am arolygon manwl, a bod y canlyniadau wedi'u rhoi i Lywodraeth Cymru. Roedd yr aelodau yn poeni bod yr arolygon yma wedi'u teilwra'n fwy priodol i'w hamgylchiadau o gymharu â'r arolygon a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn deall y bu oedi wrth gwblhau pob arolwg, ac rydym yn deall rhwystredigaeth y grŵp sy'n ymwybodol bod yr arolwg ar gyfer eu hadeiladau wedi'i gwblhau ond nad ydynt yn gallu gweld y canlyniadau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu amserlen ar gyfer pryd y caiff yr adroddiadau eu rhyddhau i lesddeiliaid eu gweld.

Clywsom gan aelodau CladDAG y gall gwaith adfer gael effaith anghymesur ar lesddeiliaid anabl, o ran y costau adfer a'r tarfu. Clywsom fod lesddeiliaid anabl yn fwy tebygol, a hynny mewn modd anghymesur, o deimlo'n gaeth mewn adeiladau anniogel heb yr addasiadau addas. Er enghraifft, clywsom am achosion lle'r oedd lesddeiliaid anabl wedi aros sawl blwyddyn am eiddo hygyrch oedd ar gael i symud i mewn iddo, er mwyn galluogi gwneud gwaith adfer, ac yn yr achosion hyn ni lwyddodd y ceisiadau i brynu'r eiddo, ac felly nid oedd y lesddeiliaid yn gallu symud mewn pryd i'r gwaith gael ei wneud.

Clywsom hefyd, mewn sefyllfa o argyfwng, nad yw'r cymorth sydd ei angen ar lesddeiliaid anabl bob amser yn cael ei ystyried gan y gwasanaethau perthnasol, megis y gwasanaethau tân ac achub. Rydym yn credu y dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys a bod yn rhaid i gydlynu ddigwydd rhwng gwasanaethau i sicrhau bod cymorth ar gyfer lesddeiliaid anabl. Roeddem yn siomedig o glywed am ddiffyg eiriolaeth ar gyfer lesddeiliaid anabl, ac yn pryderu am yr anghydraddoldeb a'r rhwystrau ychwanegol a wynebodd lesddeiliaid anabl o ganlyniad i'r argyfwng diogelwch adeiladau. Rydym yn pryderu am gost ddynol y sefyllfa barhaus tra bod pob lesddeiliaid yn aros am atebion, a gofynnwn beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r materion ar fyrder.

Roedd y tystion y clywsom ganddynt ar 1 Mawrth i gyd yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ddiogelu lesddeiliaid ac nad yw'r trefniadau gwirfoddol wedi gweithio'n effeithiol. Rydym wedi pwysleisio o'r blaen pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn fel mater o frys a gofynnwn am y wybodaeth ddiweddaraf gennych am gynnydd Bil Diogelwch Adeiladau Cymru, yr ydych wedi dweud y bydd yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y Chweched Senedd.

Fel y crybwyllwyd, mae'n amlwg inni fod problemau yn ymwneud â safonau a rheoliadau adeiladu sy'n mynd y tu hwnt i ddiogelwch adeiladau yn unig, a byddwn yn ailedrych ar y materion hyn yn ystod ein hymchwiliad cyfredol ar yr hawl i dai digonol.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb prydlon i'r llythyr hwn.

Copi at: y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.